# Tasgau sampl asesu mewnol

**Diploma Lefel 2 NCFE CACHE mewn Gwaith Chwarae**
**Rhif: 610/0643/9**

## Cynnwys

Cyflwyniad 3
Goruchwylio dysgwyr 4
Cefnogi dysgwyr 4
L2PW1 Deall egwyddorion gwaith chwarae (A/650/0574) 5
L2PW2 Deall y safle gwaith chwarae (D/650/0575) 7
L2PW3 Bodloni anghenion plant mewn safle gwaith chwarae (F/650/0576) 9
L2PW4 Ymarfer sy’n canolbwyntio ar y plentyn mewn safle gwaith chwarae (H/650/0577) 11
L2PW5 Deall sut i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae (J/650/0578) 13
L2PW6 Cefnogi perthnasoedd mewn safle gwaith chwarae (K/650/0579) 15
L2PW7 Cefnogi chwarae plant (R/650/0580) 18
L2PW8 Cefnogi iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae (T/650/0581) 19
L2PW9 Budd risg i blant (Y/650/0582) 21
L2PW10 Diogelu a lles plant mewn safle gwaith chwarae (A/650/0583) 21
L2PW11 Cefnogi gwaith y tîm gwaith chwarae (D/650/0584) 24
L2PW12 Datblygu eich arfer eich hun (F/650/0585) 26
Cysylltu â ni 29

**Cyflwyniad**

Rydym wedi creu set o dasgau sampl y gallwch eu gosod mewn cyd-destun i gyd-fynd ag anghenion eich dysgwyr i'w helpu i gasglu eu portffolio o dystiolaeth. Cynlluniwyd y tasgau i gwmpasu'r holl unedau gorfodol sy'n cael eu hasesu'n fewnol ac sy'n rhoi cyfleoedd i ymestyn a herio. Nid yw'r tasgau hyn yn orfodol.

Rhaid i bob dysgwr greu portffolio o dystiolaeth wedi'i chynhyrchu o dasgau asesu priodol, sy'n dangos cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu (LO) gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phob uned. Ar ôl cwblhau pob uned, rhaid i ddysgwyr ddatgan mai eu gwaith hwy eu hunain yw'r gwaith a gynhyrchwyd, a rhaid i'r aseswr gydlofnodi hyn.

Gall canolfan ddewis creu ei thasgau asesu mewnol ei hun. Mae pedair elfen hanfodol wrth gynhyrchu tasgau asesu llwyddiannus yn y ganolfan, sef:

- sicrhau bod y tasgau asesu yn ystyrlon gyda chanlyniadau clir y gellir eu hasesu
- ymdriniaeth briodol â'r cynnwys, canlyniadau dysgu (LO), neu feini prawf asesu (AC)
- cael cyd-destun neu senario dilys a diddorol
- cynnwys digon o gyfleoedd i ymestyn a herio i'r rhai uwch eu cyrhaeddiad

Gweler ar ein gwefan y ddogfen ganllawiau ar gyfer creu tasgau asesu mewnol.

Mae'r unedau i'w gweld yn adran 2 o fanyleb y cymhwyster.

## Goruchwylio dysgwyr

Dylai tiwtoriaid gynnig cymorth ac arwain dysgwyr wrth wneud gwaith sy'n cael ei asesu'n fewnol.

Dylai tiwtoriaid oruchwylio'r gwaith sydd wedi ei wneud gan ddysgwyr er mwyn:

- monitro eu cynnydd
- atal llên-ladrad
- sicrhau bod unrhyw waith ymarferol yn cael ei wneud yn ddiogel ac yn unol â gofynion iechyd a diogelwch
- sicrhau bod y gwaith a gwblheir yn unol â manyleb y cymhwyster a'i fod yn addas ar gyfer asesu mewnol

Rhaid i unrhyw waith a gyflwynir i'w asesu gael ei ddilysu a'i briodoli i'r dysgwr.

Rhaid bodloni'r tiwtor mai gwaith y dysgwr ei hun yw'r gwaith a gynhyrchwyd, a rhaid i'r dysgwr ddatgan mai ei waith ei hun ydyw.

## Cefnogi dysgwyr

Mae tiwtoriaid/aseswyr hefyd yn gyfrifol am gefnogi dysgwyr drwy'r broses asesu i sicrhau eu bod yn gallu creu ac ailddrafftio/adolygu gwaith yn annibynnol.

Gall tiwtoriaid/aseswyr:

- helpu'r dysgwr i ddeall cysyniad gwaith sy'n gysylltiedig â gwaith, dysgu cymhwysol a chymwysterau galwedigaethol
- helpu'r dysgwr i ddeall sut i baratoi a chyflwyno'i dystiolaeth, gan gynnwys yr hyn sy'n golygu llên-ladrad a mathau eraill o dwyllo
- ysgogi'r dysgwr i weithio'n gyson drwy'r cymhwyster, gan gynnwys ei helpu i weithio yn ôl terfynau amser
- annog y dysgwr i fentro i wneud gwelliannau i'w waith ond peidio â manylu ar y gwelliannau i'w gwneud
- darparu deunydd cyfeirio; fodd bynnag, ni ddylai atebion enghreifftiol neu atebion fesul cam gael eu copïo gan y dysgwr

**L2PW1 Deall yr egwyddorion gwaith chwarae (A/650/0574)**

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) ar gyfer yr uned.

| **Tasg Asesu – L2PW1** |
|---|
| **Tasg 1**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi lunio taflen ffeithiau i weithwyr chwarae eraill i ddisgrifio'r angen i blant chwarae.<br><br>Dylai'r daflen ffeithiau ddiffinio'r termau canlynol:<br><br>• chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd<br>• chwarae sy'n hunangyfeiriedig<br>• chwarae wedi'i gymell yn gynhenid<br><br>Disgrifiwch y gwahaniaeth rhwng:<br><br>• chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd<br>• chwarae sy'n hunangyfeiriedig<br>• gweithgareddau a arweinir gan oedolion<br><br>**Canllawiau i'r tiwtor:**<br><br>Gwybodaeth yn unig yw'r uned hon. Ni fydd angen i'r dysgwyr gwblhau unrhyw ran o'r dasg mewn lleoliad, ond gallant ddefnyddio'u profiad i gefnogi eu hymateb os yw hyn yn eu helpu. Bydd angen i'r dysgwyr allu cael at yr egwyddorion gwaith chwarae i'w cefnogi gyda'r dasg hon. Gellir cynnal y drafodaeth gyda chymheiriaid mewn amgylchedd dysgu.<br><br>**Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):**<br><br>LO2, AC2.1–2.3<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• taflen ffeithiau |

## Tasg Asesu – L2PW1

**Tasg 2**

**Cyfarwyddiadau'r dasg:**

Rhaid i chi ymgymryd â'ch gwaith ymchwil eich hun er mwyn bodloni'r meini prawf canlynol:

- esbonio gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mewn perthynas â chwarae, ac yn dilyn eich ymchwil defnyddio enghraifft i ddisgrifio sut mae eich arfer yn gysylltiedig â CCUHP mewn perthynas â chwarae
- disgrifio'r egwyddorion gwaith chwarae, a defnyddio enghraifft i ddisgrifio sut mae'r egwyddorion gwaith chwarae yn cael eu gwreiddio'n ymarferol

**Canllawiau i'r tiwtor:**

Bydd angen i ddysgwyr allu cael at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ar gyfer y dasg hon.

**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**

LO1, AC1.1–1.2
LO4, AC4.1–4.2

**Mathau o dystiolaeth:**

- disgrifiad ysgrifenedig
- trafodaeth broffesiynol wedi'i seilio ar nodiadau crynodol o waith ymchwil

**Tasg 3**

**Cyfarwyddiadau'r dasg:**

Rhaid i chi gymryd rhan mewn grŵp bach o gymheiriaid i drafod sefyllfaoedd pan fydd plant wedi'u hamddifadu o chwarae, ac archwilio hyn ymhellach mewn trafodaeth grŵp mawr.

Paratowch nodiadau i'ch helpu i gyfrannu eich meddyliau.

Yn dilyn y drafodaeth, rhaid i chi lunio disgrifiad myfyriol i esbonio beth yw ystyr y term amddifadedd chwarae a nodi effaith bosibl amddifadedd chwarae.

**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**

LO3, AC3.1–3.2

**Mathau o dystiolaeth:**

- disgrifiad myfyriol
- nodiadau trafod

**L2PW2 Deall y safle gwaith chwarae (D/ 650/0575)**

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) ar gyfer yr uned.

| **Tasg Asesu – L2PW2** |
|---|
| **Tasg 1**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Meddyliwch am y gwahanol amgylcheddau yn eich cymuned eich hun lle gall plant chwarae. Rhaid i chi ysgrifennu disgrifiad sy'n bodloni'r canlynol:<br><br>• nodi pedwar gwahanol fath o safle gwaith chwarae<br>• disgrifio nodweddion safle gwaith chwarae sy'n gyfoethog o ran chwarae<br>• disgrifio adnoddau allweddol a allai gael eu cyflwyno yn y safle gwaith chwarae i gefnogi chwarae plant<br>• disgrifio gwahanol leoedd chwarae – rhaid i chi gwmpasu'r lleoedd chwarae canlynol:<br>    o ffisegol<br>    o dros dro<br>    o parhaol<br>    o affeithiol<br>• amlinellu pam mae'n bwysig i blant gael amrywiaeth o fannau chwarae i ddewis o'u plith<br><br>**Canllawiau i'r tiwtor:**<br><br>Gwybodaeth yn unig yw'r uned hon. Ni fydd angen i'r dysgwyr gwblhau unrhyw ran o'r dasg mewn lleoliad, ond gallant ddefnyddio'u profiad i gefnogi eu hymateb os yw hyn yn eu helpu. I gwblhau'r meini prawf hyn, rhaid i'r dysgwyr allu darganfod am amgylcheddau gwahanol yn eu cymuned lle gall plant chwarae.<br><br>**Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):**<br><br>LO1, AC1.1–1.3<br>LO3, AC3.1–3.2<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |

| Tasg Asesu – L2PW2 |
|---|
| **Tasg 2**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Bydd y dasg hon yn cynnwys cardiau taflen ffeithiau a chyflwyniad byr.<br><br>Rhaid i chi greu set o gardiau i grynhoi prif gamau'r cylch chwarae. Crynhowch bob cam o'r cylch chwarae ar gerdyn ar wahân a rhifwch y cardiau mewn trefn.<br><br>Nesaf, rhaid i chi baratoi cyflwyniad byr y gellid ei roi i weithwyr chwarae i gefnogi hyfforddiant. Gallai hwn fod yn gyflwyniad digidol neu ysgrifenedig.<br><br>Rhaid i'ch cyflwyniad:<br><br>• amlinellu pwysigrwydd ymateb i arwyddion chwarae<br>• esbonio cysyniad darnau rhydd<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO2, AC2.1–2.3<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• cardiau taflen ffeithiau<br>• cyflwyniad<br>• trafodaeth broffesiynol |
| **Tasg 3**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi gynhyrchu poster neu daflen sydd:<br><br>• yn disgrifio 6 math gwahanol o chwarae<br>• yn amlinellu gwahanol ffyrdd y gall plant ddefnyddio technoleg neu'r byd rhithwir yn eu chwarae<br>• yn amlinellu sut mae'r cyfle i ymgymryd â gwahanol fathau o chwarae o fudd i blant<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO4, AC4.1–4.3<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• poster<br>• taflen |

**L2PW3 Bodloni anghenion plant mewn safle gwaith chwarae (F/650/0576)**

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) sy'n seiliedig ar wybodaeth ar gyfer yr uned.

| **Tasg Asesu – L2PW3** |
|---|
| **Tasg 1**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi gynhyrchu taflen ar gyfer myfyrwyr gwaith chwarae i'w helpu i ddeall pwysigrwydd chwarae sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Mae'n rhaid i'r daflen:<br><br>• ddisgrifio sut gall gallu plant effeithio ar eu hanghenion a'u dewisiadau chwarae<br>• disgrifio sut i gynllunio safle chwarae ar gyfer y gwahanol ystodau oedran sy'n mynychu<br>• amlinellu sut rydych yn darparu amrywiaeth o adnoddau i ddiwallu anghenion amrywiol plant<br>• disgrifio sut mae chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd yn hanfodol i ddatblygiad plant<br>• amlinellu pwysigrwydd hyrwyddo cynaladwyedd mewn lleoliad gwaith chwarae<br><br>**Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):**<br><br>LO1, AC1.1–1.4<br>LO2, AC2.1<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• taflen<br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |
| **Tasg 2**<br><br>Rhaid i chi fyfyrio ar chwarae yn yr awyr agored, ac yna llunio llyfryn sy'n amlinellu gwerth chwarae y tu allan ac esboniad o werth chwarae y tu allan ar gyfer iechyd, lles ac iechyd meddwl plant.<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO2, AC2.2<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• llyfryn<br>• trafodaeth broffesiynol |

| Tasg Asesu – L2PW3 |
|---|
| **Tasg 3**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi gymryd rhan mewn trafodaethau gydag eraill i archwilio'r effaith y mae trawsnewidiadau'n eu cael ar blant ac i ddeall sut y gall gweithiwr chwarae gefnogi ymddygiad plant o fewn safle gwaith chwarae.<br><br>Gwnewch nodiadau o'ch meddyliau yn ystod y trafodaethau ac yna ysgrifennwch ddisgrifiad i gynnwys y canlynol:<br><br>• nodi trawsnewidiadau eraill y gall plant ddod ar eu traws<br>• esbonio sut y gall trawsnewidiadau ddylanwadu ar ymddygiad a'r ffordd mae plant yn chwarae<br>• disgrifio 3 trawsnewidiad allweddol y mae'r rhan fwyaf o blant yn cael profiad ohonynt<br>• disgrifio sut y gall gweithiwr chwarae gefnogi plant sy'n cael profiad o drawsnewidiadau<br>• esbonio sut y gall ffactorau allanol ddylanwadu ar ymddygiad plant<br>• amlinellu sut y gellir cefnogi plant i ddeall gwerth perthnasoedd cadarnhaol<br>• esbonio manteision cynnwys plant mewn cytundebau grŵp ynghylch ymddygiad disgwyliedig<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO3, AC3.1–3,3<br>LO4, AC4.1–4.3<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |
| **Tasg 4**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Mae'n rhaid i chi lunio poster, taflen neu daflen ffeithiau er mwyn:<br><br>• nodi deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant<br>• esbonio polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth ac arfer cynhwysol<br>• disgrifio pwysigrwydd arfer gwaith chwarae sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO5, AC5.1–5.3<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• poster<br>• taflen<br>• trafodaeth broffesiynol |

**L2PW4 Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn mewn safle gwaith chwarae (H/650/0577)**

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) sy'n seiliedig ar wybodaeth ar gyfer yr uned.

| Tasg asesu – L2PW4 |
|---|
| **Tasg 1**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi baratoi ar gyfer cyfweliad mewn safle gwaith chwarae.<br><br>Rhaid i'ch nodiadau paratoi:<br><br>• ddisgrifio gwahanol ddulliau o gael adborth gan blant y gellid eu defnyddio mewn safle gwaith chwarae<br>• disgrifio sut i ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd gan blant:<br>  ○ i nodi anghenion a dewisiadau chwarae<br>  ○ i gynrychioli llais plant<br>  ○ i ddylanwadu ar ymarfer<br>• amlinellu sut y gall y gweithiwr chwarae gefnogi plant gyda'r canlynol drwy chwarae:<br>  ○ cyd-drafod<br>  ○ gwneud penderfyniadau<br>  ○ parchu unigoliaeth<br>  ○ hunan-barch<br>  ○ hunanddibyniaeth<br>  ○ cadernid<br><br>**Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):**<br><br>LO1, AC1.2–1.3<br>LO2, AC2.1<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• nodiadau<br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |

| Tasg asesu – L2PW4 |
| --- |
| **Tasg 2**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi wneud ychydig o ymchwil i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).<br><br>Ysgrifennwch ddisgrifiad sy'n esbonio pwysigrwydd cymryd rhan gyda phlant a sut mae hyn yn ymwneud â CCUHPA.<br><br>**Canllawiau i'r tiwtor:**<br><br>Bydd angen i ddysgwyr allu cael at CCUHP.<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO2, AC1.1<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |
| **Tasg 3**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi feddwl am rôl y gweithiwr chwarae a phwysigrwydd hybu ymwybyddiaeth am fanteision chwarae a gwaith chwarae.<br><br>Nesaf, mae'n rhaid i chi ysgrifennu disgrifiad i:<br><br>• amlinellu pam mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r effaith y gallwch ei chael ar chwarae plant a'r safle gwaith chwarae – dylech gwmpasu effeithiau negyddol a chadarnhaol ar y broses chwarae a phrofiadau chwarae plant yn eich disgrifiad<br>• esbonio pam mae'n bwysig i'r gweithiwr chwarae fod yn eiriolwr dros chwarae<br>• nodi gwahanol ffyrdd y gall gweithiwr chwarae hybu ymwybyddiaeth am fanteision chwarae a gwaith chwarae<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO2, AC2.2<br>LO3, AC3.1–3.2<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |

## L2PW5 Deall sut i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae (J/650/0578)

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) ar gyfer yr uned.

| Tasg Asesu – L2PW5 |
| --- |
| **Tasg 1**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi drefnu cyfweliad gyda gweithiwr chwarae.<br><br>Bydd angen i chi baratoi cwestiynau ar gyfer eich cyfweliad a fydd yn caniatáu ichi gwblhau'r meini prawf isod. Gwiriwch eich cwestiynau gyda'ch tiwtor cyn eich cyfweliad, a byddwch yn barod i gyfrannu at drafodaeth broffesiynol i egluro eich meddyliau ac i gwrdd ag AC2.1 yn benodol.<br><br>Yn ystod eich cyfweliad gyda gweithiwr chwarae, trafodwch ei rôl wrth gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae. Bydd yn eich helpu i wneud nodiadau yn ystod eich cyfweliad.<br><br>Ar ôl y cyfweliad, ysgrifennwch ddisgrifiad sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:<br><br>• esbonio polisïau safle gwaith chwarae mewn perthynas â chefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau<br>• amlinellu sut mae rhagdybiaethau, agweddau a gwahaniaethu yn atal rhai plant rhag cael yn gyfartal at chwarae<br>• disgrifio ffyrdd y gall y gweithiwr chwarae gael gwared ar rwystrau sy'n atal chwarae<br>• esbonio pwysigrwydd perthynas gadarnhaol â rhieni/gofalwyr wrth gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau<br>• esbonio pam mae'n bwysig cynnwys llais plant wrth gynllunio i ddiwallu eu hanghenion<br>• esbonio sut y gall arwyddion chwarae gael eu mynegi gan blant pan fyddant yn cyfathrebu'n wahanol<br>• esbonio sut y gall oedolion effeithio ar brofiad chwarae plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau<br><br>**Canllawiau i'r tiwtor:**<br><br>Gwybodaeth yn unig yw'r uned hon. Er mwyn cwblhau tasg 1, ni fydd angen i ddysgwyr gwblhau unrhyw ran o'r dasg mewn lleoliad, ond gallant ddefnyddio'u profiad i gefnogi eu hymateb os bydd hyn yn eu helpu. Bydd angen i ddysgwyr gael at weithiwr chwarae profiadol sydd â phrofiad o gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau er mwyn ei gyfweld ef/hi am ei rôl.<br><br>**Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):**<br><br>LO1, AC1.1<br>LO2, AC2.1–2.2<br>LO3, AC3.1–3.3<br>LO4, AC4.1–4.2 |

| Tasg Asesu – L2PW5 |
| --- |
| **Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• cwestiynau a nodiadau cyfweliad<br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |
| **Tasg 2**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi ymgymryd â'ch ymchwil eich hun i wahanol fathau o addasiadau y gellid eu gwneud i gefnogi chwarae cynhwysol. Gallai'r addasiadau hyn fod yn yr amgylchedd, adnoddau neu staff.<br><br>Nesaf, dysgwch pam mae'n bwysig ceisio cymorth mewn sefyllfaoedd sydd y tu hwnt i'ch arbenigedd a'ch profiad eich hun, cyn ymchwilio i ffynonellau cymorth, arweiniad a gwybodaeth arbenigol lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud ag anghenion ychwanegol ac anabledd.<br><br>Yna rhaid i chi greu taflen wybodaeth y gellid ei defnyddio mewn safle gwaith chwarae i gefnogi staff gwaith chwarae.<br><br>Rhaid i'r adnodd hwn:<br><br>• ddisgrifio o leiaf 3 gwahanol addasiad y gellid eu gwneud i gefnogi chwarae cynhwysol<br>• amlinellu pwysigrwydd ceisio cymorth mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'ch arbenigedd a'ch profiad eich hun<br>• nodi o leiaf dwy ffynhonnell leol o gymorth arbenigol ac o leiaf dwy ffynhonnell genedlaethol o gymorth, arweiniad a gwybodaeth genedlaethol yn ymwneud ag anghenion ychwanegol ac anableddau<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO3, AC3.3–4.4<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• adnodd taflen wybodaeth<br>• trafodaeth broffesiynol |

**L2PW6 Cefnogi perthnasoedd mewn safle gwaith chwarae (K/650/0579)**

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) sy'n seiliedig ar wybodaeth ar gyfer yr uned.

| **Tasg Asesu – L2PW6** |
|---|
| **Tasg 1**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi ddarllen y senario ganlynol ac ateb y cwestiynau isod i fodloni'r meini prawf a nodwyd.<br><br>Mae Carl yn weithiwr chwarae profiadol a gofynnwyd iddo fod yn fentor i aelod newydd o'r staff. Bydd Carl yn treulio'r 6 wythnos nesaf yn cefnogi ac yn tywys y gweithiwr chwarae newydd wrth iddo ymgartrefu yn ei rôl.<br><br>Mae'n rhaid yn awr i chi dreulio ychydig o amser yn ystyried rôl fentora Carl wrth gefnogi perthnasoedd yn y safle gwaith chwarae.<br><br>Nesaf, rhaid i chi ysgrifennu disgrifiad sy'n bodloni'r meini prawf canlynol:<br><br>• esbonio pam mae'n bwysig i weithiwr chwarae sefydlu perthynas gadarnhaol â phlant mewn safle gwaith chwarae<br>• disgrifio canlyniadau posib i blant pan nad yw perthnasoedd wedi'u sefydlu<br>• amlinellu strategaethau/technegau y gallai gweithiwr chwarae eu defnyddio i gefnogi plant i reoli eu hemosiynau, eu teimladau a'u hymddygiad<br>• esbonio pam mae'n bwysig i weithwyr chwarae gael perthynas gadarnhaol ag eraill<br>• egluro pwysigrwydd cyfathrebu clir ag eraill<br>• nodi rhwystrau rhag cael perthynas gadarnhaol ag eraill<br>• amlinellu ffyrdd o oresgyn rhwystrau rhag cynnal perthynas gadarnhaol ag eraill<br><br>**Canllawiau i'r tiwtor:**<br><br>Gellid ymdrin â'r tasgau ar gyfer yr uned hon fel prosiect. Bydd angen y senario y manylir arni yn nhasg 1 ar ddysgwyr i ymdrin â thasgau 1 i 3.<br><br>**Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):**<br><br>LO1, AC1.1–1.2<br>LO4, AC4.3<br>LO5, AC5.1–5.4<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |

| **Tasg Asesu – L2PW6** |
|---|
| **Tasg 2**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Yn dilyn tasg 1, rhaid i chi baratoi taflen y gall Carl ei rhannu gyda'r sawl y mae'n ei fentora mewn sesiwn fentora i fodloni'r meini prawf canlynol:<br><br>• disgrifio ffyrdd o helpu plant i deimlo bod croeso iddynt a'u bod wedi'u gwerthfawrogi yn y safle gwaith chwarae<br>• amlinellu tri dull cyfathrebu gwahanol sy'n briodol i oedran neu allu plentyn<br>• amlinellu pwysigrwydd gwneud yn siŵr bod plant wedi deall yr hyn sy'n cael ei gyfathrebu<br>• disgrifio sut mae'r gweithiwr chwarae yn ymwneud â phlant yn ôl eu hoedran ac anghenion unigol<br>• disgrifio sut i fynd i'r afael â rhwystrau rhag cyfathrebu â phlant<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO1, AC1.3<br>LO2, AC2.1–2.4<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• taflen<br>• trafodaeth broffesiynol |
| **Tasg 3**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Gan adeiladu ar y senario y manylir arni yn nhasg 1, bydd Carl nawr yn paratoi adnodd i'w rannu gyda'r sawl y mae'n ei fentora er mwyn iddo gyfeirio ato. Gallai'r adnodd hwn fod yn daflen, pamffled neu lyfryn.<br><br>Rhaid i chi ddatblygu adnodd y gallai Carl ei rannu i fodloni'r meini prawf canlynol:<br><br>• amlinellu pam mae'n bwysig i blant allu gofyn cwestiynau, cynnig syniadau a gwneud awgrymiadau neu gwynion<br>• disgrifio sut y gall plant ddatblygu a chynnal perthnasoedd trwy chwarae<br>• esbonio sut i gefnogi plant i werthfawrogi gwahaniaethau<br>• amlinellu pam mae'n bwysig i blant werthfawrogi unigolrwydd, amrywiaeth a gwahaniaethau mewn eraill<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO2, AC2.5<br>LO3, AC3.1–3.3<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• adnodd<br>• trafodaeth broffesiynol |

| Tasg Asesu – L2PW6 |
|---|
| **Tasg 4**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi lunio disgrifiad ysgrifenedig i fodloni'r meini prawf canlynol:<br><br>• amlinellu pam mae'n bwysig i blant ddeall teimladau a safbwyntiau pobl eraill<br>• amlinellu pam mae'n bwysig i blant allu datrys gwrthdaro drostynt eu hunain<br>• disgrifio pa gymorth y gall fod ei angen ar blant pan fydd gwrthdaro'n codi<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO3, AC3.4<br>LO4, AC4.1–4.2<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• taflen/disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |

**L2PW7 Cefnogi chwarae plant (R/650/0580)**

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) sy'n seiliedig ar wybodaeth ar gyfer yr uned.

| **Tasg asesu – L2PW7** |
|---|
| **Tasg 1**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Mae'r dasg hon yn gofyn ichi fyfyrio ar bwysigrwydd chwarae dan gyfarwyddyd y plentyn. Gallwch ddefnyddio enghreifftiau o safle gwaith chwarae gan gynnwys arsylwadau o blant yn ystod sesiwn chwarae. Os nad ydych yn gallu cael at safle, neu os na allwch fodloni'r holl feini prawf, gellir cyflawni meini prawf dros ben trwy eich ymchwil eich hun.<br><br>Rhaid i chi lunio disgrifiad ysgrifenedig i gwmpasu'r meini prawf canlynol:<br><br>• egluro pwysigrwydd plant yn archwilio cyfleoedd chwarae drostynt eu hunain<br>• disgrifio sut i gefnogi plant i addasu lleoedd chwarae<br>• disgrifio sut i gefnogi chwarae i ddod i ben mewn ffordd sy'n sensitif i lefel ymwneud y plant<br>• disgrifio ymyrraeth o safbwynt gwaith chwarae<br>• amlinellu sut y gall ymyriadau gwaith chwarae wella'r broses chwarae<br>• esbonio pryd a sut y dylai'r gweithiwr chwarae ymyrryd i leihau risg gan barchu'r broses chwarae ac egwyddorion gwaith chwarae<br><br>**Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):**<br><br>LO1, AC1.1–1.3<br>LO2, AC2.1–2.3<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |

**L2PW8 Cefnogi iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae (T/650/0581)**

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) sy'n seiliedig ar wybodaeth ar gyfer yr uned.

| Tasg Asesu – L2PW8 |
|---|
| **Tasg 1**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi gynhyrchu adnodd y gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â pholisi iechyd a diogelwch mewn safle gwaith chwarae. Rhaid trefnu'r adnodd i fodloni'n glir y meini prawf canlynol:<br><br>• disgrifio'r gofynion a'r canllawiau cyfreithiol ar gyfer iechyd a diogelwch sy'n berthnasol mewn cyd-destun gwaith chwarae<br>• amlinellu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer iechyd, diogelwch a lles sy'n berthnasol mewn cyd-destun gwaith chwarae, gan gynnwys gweithdrefnau oddi ar y safle<br>• nodi o leiaf 5 gwahanol berygl a all ddigwydd mewn safle gwaith chwarae<br>• disgrifio sut i asesu ac ymateb i'r prif beryglon iechyd a diogelwch a all ddigwydd mewn safle gwaith chwarae ac oddi ar y safle<br>• amlinellu sefyllfaoedd lle mae'r gweithiwr chwarae:<br>  ○ yn gallu delio â pherygl ei hun<br>  ○ yn gorfod rhoi gwybod am berygl i eraill<br><br>**Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):**<br><br>LO1, AC1.1<br>LO2, AC2.1<br>LO4, AC4.1–4.3<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• adnodd<br>• trafodaeth broffesiynol |
| **Tasg 2**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi greu poster a thaflen y gellir eu harddangos yn yr ystafell staff yn y safle gwaith chwarae i gynnig cyngor ac arweiniad ynghylch sefyllfaoedd argyfwng a allai ddigwydd. Rhaid i'ch poster a'ch taflen gwmpasu gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer y sefyllfaoedd argyfwng canlynol:<br><br>• tân a gwacáu<br>• cloi adeilad<br>• tywydd eithafol<br>• digwyddiad diogelwch<br>• argyfyngau chwarae ac ymddygiad<br>• argyfwng meddygol<br><br>Mae'n rhaid i'r poster neu'r daflen gwmpasu'r meini prawf canlynol: |

| Tasg Asesu – L2PW8 |
|---|
| • amlinellu mathau cyffredin o anafiadau a salwch a all ddigwydd yn y safle gwaith chwarae<br>• disgrifio'r gweithdrefnau y dylai gweithiwr chwarae eu dilyn mewn ymateb i anafiadau ac afiechydon<br>• disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd argyfwng a all ddigwydd yn y safle gwaith chwarae<br>• esbonio pam mae'n bwysig peidio â chynhyrfu, a chyfathrebu'n glir yn ystod argyfwng<br>• amlinellu cofnodion sydd eu hangen yn dilyn argyfwng, a pham mae'n bwysig cwblhau'r rhain yn gywir<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO6, AC6.1–6.2<br>LO7, AC7.1–7.3<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• poster a thaflen<br>• trafodaeth broffesiynol |

**L2PW9 Budd risg i blant (Y/650/0582)**

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) sy'n seiliedig ar wybodaeth ar gyfer yr uned.

| Tasg asesu – L2PW9 |
|---|
| **Tasg 1**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi ddarllen yr erthyglau canlynol i'ch cefnogi i fodloni'r meini prawf isod:<br><br>• https://chwarae.cymru/chwarae/chwarae-a-risg/<br>• www.early-education.org.uk/taking-risks-play<br><br>Rhaid i chi ysgrifennu disgrifiad sy'n esbonio budd risg.<br><br>Gallech gynnwys rhai enghreifftiau o risg a her a welsoch yn eich safle chi. Rhaid i'ch disgrifiad gwmpasu'r meini prawf canlynol:<br><br>• esbonio sut mae risg yn bwysig i ddatblygiad plant<br>• nodi enghreifftiau o risg a her mewn safle gwaith chwarae mewn perthynas ag oedran a chyfnod datblygiad plant<br>• diffinio'r termau:<br>    ○ asesiad o fudd risg<br>    ○ asesiad o fudd risg dynamig<br>• amlinellu pam mae'n bwysig i weithwyr chwarae gydbwyso gofynion iechyd a diogelwch a'r angen am risg a her<br>• cwblhau eich disgrifiad ysgrifenedig drwy ddisgrifio sut mae defnyddio asesiad o fudd risg dynamig yn effeithio'n gadarnhaol ar chwarae plant<br>• nodi pwysigrwydd plant yn rheoli risg iddyn nhw eu hunain<br><br>**Canllawiau i'r tiwtor:**<br><br>Rhaid i ddysgwyr gael at yr erthyglau canlynol er mwyn cefnogi'r dasg hon:<br><br>• https://chwarae.cymru/chwarae/chwarae-a-risg/<br>• www.early-education.org.uk/taking-risks-play<br><br>**Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):**<br><br>LO1, AC1.1–1.6<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |

**L2PW10 Diogelu a lles plant mewn safle gwaith chwarae (A/650/0583)**

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) sy'n seiliedig ar wybodaeth ar gyfer yr uned.

| Tasg asesu – L2PW10 |
|---|
| **Tasg 1**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi ddatblygu canllaw i staff a myfyrwyr gyfeirio ato mewn safle gwaith chwarae.<br><br>Rhaid i chi rannu eich canllaw'n bedair adran.<br><br>**Adran 1: deddfwriaeth**<br><br>Rhaid i chi roi teitl i adran gyntaf y canllaw fel uchod a chwmpasu'r meini prawf canlynol:<br><br>• diffinio'r hyn a olygir wrth ddiogelu plant<br>• nodi:<br>    o y gofynion cyfreithiol<br>    o y polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol<br>• amlinellu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant<br><br>**Adran 2: deddfwriaeth ar waith**<br><br>Rhaid i chi roi teitl i ail adran y canllaw fel uchod a chwmpasu'r meini prawf canlynol:<br><br>• amlinellu nodweddion cod ymarfer diogel ar gyfer diogelu aelodau o'r tîm gwaith chwarae a gwirfoddolwyr<br>• esbonio'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â chyfrinachedd<br><br>**Adran 3: canllawiau ac arferion diogel i amddiffyn plant**<br><br>Rhaid i chi roi teitl i drydedd adran y canllaw fel uchod a chwmpasu'r meini prawf canlynol:<br><br>• disgrifio 5 gwahanol fath o gam-drin<br>• disgrifio 4 ffactor a allai gyfrannu at y ffaith bod plentyn yn fwy agored i gamdriniaeth<br>• disgrifio sut y gellir mynegi arwyddion o gamdriniaeth trwy chwarae plant<br>• amlinellu risgiau i blant o ddefnyddio technoleg a chyfryngau cymdeithasol<br>• adnabod â phwy i gysylltu pan fydd pryderon diogelu am blant<br>• amlinellu gweithdrefnau cofnodi ac adrodd mewn perthynas â lles plentyn yn eich safle eich hun<br>• amlinellu'r gwahaniaethau rhwng:<br>    o arsylwi<br>    o ffaith<br>    o gwybodaeth a gafwyd gan eraill<br>    o barn<br>• esbonio pwysigrwydd adrodd am bryderon a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â lles plant, gan gynnwys iechyd meddwl<br>**Adran 4: chwythu'r chwiban ac arfer gorau**<br><br>Rhaid i chi roi teitl i bedwaredd adran y canllaw fel uchod a chwmpasu'r meini prawf canlynol: |

| Tasg asesu – L2PW10 |
| --- |
| • crynhoi'r term 'chwythu'r chwiban' a sut mae hyn yn ymwneud â'ch rôl<br>• egluro pwysigrwydd cefnogi plant i'w cadw eu hunain yn ddiogel<br>• nodi ble i gael cyngor, cefnogaeth a rhagor o wybodaeth am faterion sy'n ymwneud â diogelu plant<br>• disgrifio strategaethau y gellid eu defnyddio i gefnogi plant i'w cadw eu hunain yn ddiogel:<br>o pan fyddant i ffwrdd oddi wrth oedolion<br>o pan fyddant ar-lein<br>o pan fyddant gyda'u cyfoedion<br>o os ydyn nhw'n cael eu bwlio<br><br>**Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):**<br><br>LO1, AC1.1–1.5<br>LO2, AC2.1–2.4<br>LO3, AC3.1–3.5<br>LO4, AC4.1–4.3<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• adnodd canllaw i weithwyr chwarae<br>• trafodaeth broffesiynol |

**L2PW11 Cefnogi gwaith y tîm gwaith chwarae (D/650/0584)**

Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) sy’n seiliedig ar wybodaeth ar gyfer yr uned.

| Tasg asesu – L2PW11 |
|---|
| **Tasg 1**<br><br>**Cyfarwyddiadau’r dasg:**<br><br>Rhaid i chi feddwl am ystyr gwaith tîm effeithiol ac yna ysgrifennu paragraff i esbonio ystyr gwaith tîm effeithiol. Gallwch gyfeirio at enghreifftiau o’ch profiad eich hun yn eich ymateb.<br><br>**Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):**<br><br>LO2, AC2.1<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig |
| **Tasg 2**<br><br>**Cyfarwyddiadau’r dasg:**<br><br>Rhaid i chi ddatblygu cyfres o ddisgrifiadau i fodloni'r meini prawf canlynol.<br><br>Os oes gennych fynediad at safle gwaith chwarae, gallwch ystyried eich profiadau o weithio fel rhan o dîm proffesiynol. Rhaid i'r disgrifiadau:<br><br>• nodi gwahanol berthnasoedd gwaith sy'n cefnogi ymarfer tîm effeithiol<br>• nodi eraill a allai weithio gyda thîm gwaith chwarae<br>• amlinellu rôl eraill a allai weithio gyda thîm gwaith chwarae<br>• disgrifio sut y gall gwaith partneriaeth fod o fudd i blant mewn cyd-destun gwaith chwarae<br>• amlinellu pwysigrwydd cyfathrebu clir o fewn tîm<br>• disgrifio manteision cyfarfodydd tîm<br>• esbonio ffyrdd o wella arfer gwaith chwarae tîm<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO1, AC1.1–1.4<br>LO2, AC2.2<br>LO3, AC3.1–3.2<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |

| Tasg asesu – L2PW11 |
|---|
| **Tasg 3**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Yn y dasg hon gofynnir i chi ystyried gwrthdaro a all ddigwydd o fewn tîm. Rhaid i chi greu poster neu daflen y gellid ei defnyddio fel adnodd i staff gwaith chwarae.<br><br>Rhaid i'ch adnodd gwmpasu'r meini prawf canlynol:<br><br>• rhoi tair enghraifft o fath o faterion a all achosi gwrthdaro o fewn tîm gwaith chwarae<br>• disgrifio ffyrdd o ddatrys gwrthdaro tîm<br>• disgrifio pan fyddai angen i chi gyfeirio gwrthdaro at uwch aelod o'r staff<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO2, AC2.3–2.5<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• adnodd/taflen/poster<br>• trafodaeth broffesiynol |

**L2PW12 Datblygu eich arfer eich hun (F/650/0585)**


Datblygwyd y tasgau canlynol i fodloni'r holl feini prawf asesu (AC) sy'n seiliedig ar wybodaeth a sgiliau ar gyfer yr uned. Mae'r sgiliau'n gysylltiedig â myfyrio gan fyfyrwyr er mwyn nodi camau a thargedau ar gyfer datblygiad proffesiynol. Felly mae meini prawf asesu sy'n seiliedig ar sgiliau wedi'u cynnwys fel rhan o'r dasg hon.

**Tasg asesu – L2PW12**

**Tasg 1**

**Cyfarwyddiadau'r dasg:**

Cyfeiriwch at y cylch myfyriol (ceir enghraifft o gylch myfyriol Gibbs yma, ond bydd unrhyw gylch myfyriol yn briodol). Defnyddiwch y cylch myfyriol i'ch helpu i fodloni'r meini prawf canlynol.




Cyfeiriad: [www.aminabusinessplanning.wordpress.com/2014/12/10/gibbs-model-of-reflection-my-business-plan/](www.aminabusinessplanning.wordpress.com/2014/12/10/gibbs-model-of-reflection-my-business-plan/)

Rhaid i chi ysgrifennu disgrifiad sy'n amlinellu'r hyn a olygir wrth ymarfer myfyriol a sut mae'n ymwneud â'r egwyddorion gwaith chwarae.

Rhaid i'ch disgrifiad hefyd egluro pwysigrwydd ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer arfer gorau.

**Canllawiau i'r tiwtor:**

Rhaid i ddysgwyr gael at enghraifft o gylch myfyriol i gefnogi tasg 1.

Rhaid i ddysgwyr gasglu rhywfaint o adborth gan blant ac eraill wrth baratoi ar gyfer trafodaeth fyfyriol yn nhasg 3.

Cyn ceisio gwneud tasg 4, bydd angen i ddysgwyr gasglu darnau penodol o dystiolaeth er mwyn gweithio gyda pherson priodol i gwrdd â'r meini prawf asesu.

Rhaid i ddysgwyr gael cofnodion o weithgareddau DPP y maent wedi eu cynnal.

| Tasg asesu – L2PW12 |
| --- |
| Yn ogystal, rhaid i ddysgwyr gael arsylwadau o'u hymarfer a gwblhawyd gan eu tiwtor neu gymheiriaid yn y safle gwaith chwarae. Mae'r rhain yn ofynnol i ddangos defnyddio arsylwadau ac adborth gan gymheiriaid i lywio eu harfer eu hunain. Dylai dysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu cynllun datblygu proffesiynol (CDP) ar gyfer tasg 4.<br><br>**Mapio canlyniadau dysgu (LO) a meini prawf asesu (AC):**<br><br>LO1, AC1.1–1.2<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |
| **Tasg 2**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Cymerwch eiliad i ystyried sut gall eich agweddau a'ch profiadau eich hun effeithio ar eich gwaith.<br><br>Rhaid i chi ysgrifennu disgrifiad i fodloni'r meini prawf isod:<br><br>• disgrifio sut mae eich gwerthoedd, eich agweddau a'ch profiadau eich hun yn effeithio ar ymarfer gwaith chwarae a pham mae'n bwysig cydnabod a myfyrio ar hyn<br>• nodi sut y gall ymddygiad plant effeithio ar y gweithiwr chwarae<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO1, AC1.3–1.4<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• disgrifiad ysgrifenedig<br>• trafodaeth broffesiynol |
| **Tasg 3**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Rhaid i chi wneud nodiadau i baratoi ar gyfer trafodaeth ar ddatblygiad proffesiynol gyda'ch tiwtor/aseswr.<br><br>Bydd y drafodaeth yn ymdrin â'r meini prawf canlynol:<br><br>• esbonio pwysigrwydd arsylwadau chwarae ac adborth gan blant i wella eich arferion gwaith chwarae eich hun<br>• defnyddio adborth gan blant ac eraill i fyfyrio ynghylch eich arfer gwaith chwarae eich hun<br>• myfyrio ar eich arfer eich hun mewn perthynas â'r egwyddorion gwaith chwarae<br>• crynhoi sut y gall gwelliannau yn eich datblygiad proffesiynol eich hun effeithio'n gadarnhaol ar y safle gwaith chwarae |

| Tasg asesu – L2PW12 |
|---|
| **Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO1, AC1.5<br>LO2, AC2.1–2.3<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• nodiadau paratoi<br>• trafodaeth broffesiynol |
| **Tasg 4**<br><br>**Cyfarwyddiadau'r dasg:**<br><br>Yn y dasg hon bydd angen i chi weithio gyda pherson priodol.<br><br>Rhaid i chi ystyried arsylwadau rydych chi wedi'u cyflawni ar chwarae plant, ac egluro mewn trafodaeth broffesiynol neu ddisgrifiad myfyriol ysgrifenedig sut mae eich arsylwadau wedi llywio eich arfer.<br><br>Rhannwch eich arsylwadau a'ch myfyrdodau eich hun gyda'ch cydweithwyr i lywio ymarfer. Rhaid i chi weithio gyda pherson priodol:<br><br>• i nodi eich cryfderau eich hun a meysydd lle gallai ymarfer gwaith chwarae wella<br>• i gasglu adborth<br>• i gynllunio ffyrdd y gallai ymarfer gwaith chwarae wella<br>• i nodi nodau a thargedau<br>• i gynllunio datblygiad personol<br><br>Rhaid i chi rannu tystiolaeth o'r gweithgareddau DPP a wnaethoch ac sy'n berthnasol i'ch nodau a'ch targedau eich hun, ac ysgrifennu disgrifiad myfyriol neu drafod gyda'ch tiwtor, gan esbonio sut mae'r cyfleoedd datblygu wedi gwella eich arfer eich hun.<br><br>**Mapio Canlyniadau Dysgu a Meini Prawf Asesu:**<br><br>LO2, AC2.4–2.5<br>LO3, AC3.1–3.3<br><br>**Mathau o dystiolaeth:**<br><br>• nodiadau paratoi<br>• trafodaeth broffesiynol<br>• cynllun datblygiad personol<br>• cofnodion o weithgareddau DPP<br>• cynlluniau gosod targedau |

**Cysylltwch â ni**

NCFE
Q6
Quorum Park
Benton Lane
Newcastle upon Tyne
NE12 8BT

Ffôn: 0191 239 8000*
Ffacs: 0191 239 8001
E-bost: customersupport@ncfe.org.uk
Gwefannau: www.ncfe.org.uk

**Hawlfraint NCFE © 2023 Cedwir pob hawl yn fyd-eang**

Fersiwn 2.0 Tachwedd 2023
Mae'r wybodaeth yn y ddogfen asesu fewnol hon yn gywir adeg ei chyhoeddi ond gall fod yn agored i'w newid.

Mae NCFE yn elusen gofrestredig (Rhif Elusen Gofrestredig 1034808) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (Rhif Cwmni 2896700).

Mae CACHE; Council for Awards in Care, Health and Education; a NNEB yn nodau masnach cofrestredig sy'n eiddo i NCFE.

Mae'r holl ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn yn cael ei warchod gan hawlfraint.

***** I barhau i wella ein lefelau gwasanaeth cwsmeriaid, gall galwadau ffôn gael eu recordio at ddibenion hyfforddiant ac ansawdd.***